ARHOLIADAU SEMESTER DAU, 2025/26

ADRAN Y GYFRAITH A THROSEDDEG

CT34820 Cyfraith Tir

Amser: **2 AWR**

Atebwch UN cwestiwn

Caniateir i ymgeiswyr fynd ag un dudalen A4 o nodiadau (wedi'u hysgrifennu ar y ddwy ochr) i mewn i'r arholiad.

Cofiwch y bydd yr arholwyr yn rhoi pwysigrwydd neilltuol ar ba mor berthnasol yw'ch ateb i'r cwestiwn PENODOL a ofynnwyd. Felly, ni roddir marciau am ddeunydd amherthnasol.

Pa bynnag gwestiwn y dewiswch ei ateb, *rhaid* i chi gyfeirio at ddeddfwriaeth berthnasol a/neu'r gyfraith achosion, fel y bo'n briodol, i gefnogi'ch ateb. (Yr un faint o farciau sydd ar gael i bob cwestiwn.)

Nodwch yn glir pa gwestiynau rydych yn eu hateb.

MAE MYFYRWYR YN CAEL CYFLWYNO ATEBION I'R PAPUR HWN YN GYMRAEG NEU YN SAESNEG

Ar ôl eistedd, DIM OND tudalen flaen y llyfr/llyfrau atebion a'r papur presenoldeb y mae myfyrwyr yn cael eu llenwi.

PEIDIWCH Â THROI'R PAPUR ARHOLIAD DROSODD TAN Y DYWEDIR WRTHYCH AM WNEUD HYNNY.

1. Yn sgil y sylw helaeth a gafodd y gamp yng Ngemau Olympaidd Gaeaf 2022, mae criw o ffrindiau, sef Don (76 oed ar y pryd), Joe (45), Peter (35), Mike (17), Mary (26), a Trish (18) wedi gwirioni ar gwrlo. Yn ddiweddarach y flwyddyn honno, tra oeddent ar eu gwyliau ym Mhowys, darllenodd Don yn y *Machynlleth Times* am farwolaeth drasig y tîm cwrlo lleol yn Naeargryn Mawr Machynlleth yn 2022. Ac yntau wedi penderfynu mai ei dynged oedd dod â chwrlo yn ôl i'r dref, perswadiodd ei ffrindiau y dylent brynu River Mews, tŷ ar lan Afon Dyfi. Gan fod y tŷ mewn cyflwr gwael ac wedi'i ddifrodi'n helaeth gan lifogydd, fe wnaeth y chwech gyda'i gilydd brynu'r tŷ ar y cyd am £180,000, gan gyfrannu'n gyfartal at y pris prynu.

   Y flwyddyn ganlynol, syrthiodd Don dros ei ben â'i glustiau mewn cariad â Daniella, hyfforddwraig bersonol 20 oed. Ac yntau'n poeni y byddai hi'n meddwl ei fod yn rhy hen, dechreuodd Don godi pwysau i "gynnal fy egni ac adennill fy ieuenctid!" Er mwyn rhoi sicrwydd i Daniella ei fod o ddifrif ynglŷn â'u dyfodol gyda'i gilydd, cyflawnodd Don ewyllys newydd, yn cynnwys y cymal: "Rwy'n gadael fy nghyfran o River Mews i fy enaid hoff gytûn, Daniella."

   Yn 2024, dechreuodd Trish astudio am radd mewn Eifftoleg ym Mhrifysgol Rhydyfelin. I helpu i ariannu ei hastudiaethau, morgeisiodd ei budd ecwitïol yn River Mews i'r *Black Cat Building Society*.

   Yn ddiweddarach yn 2024, penderfynodd Mike ei fod eisiau mynd i deithio i'r Dwyrain Canol. Cyn iddo adael, siaradodd â'i gyd-berchnogion ynglŷn â hollti ei gyfran ef o River Mews. Yn y pen draw, fe lofnododd pob un ohonynt ddarn o bapur yn cytuno bod Mike yn hollti ei gyfran ef o ddechrau'r mis nesaf. Gofynnodd Mike iddynt anfon unrhyw bost ymlaen i gyfeiriad ei rieni.

   Yn 2025, aeth hi'n ddadl danbaid rhwng Joe a Mary ynghylch p'un ohonynt oedd â'r ysgub gwrlo orau. Trodd y ddadl yn dreisgar, ac fe wnaeth Mary daro Joe ar ei ben â'i ysgub ei hun, a'i ladd. Cafodd ei heuogfarnu am ei ddynladdiad, ac ar hyn o bryd mae hi yng Ngharchar Ei Fawrhydi Aberdyfi. Tynnwyd sylw Don gan y newyddion ar y radio bod Mary wedi ei chael yn euog, a gollyngodd garreg gwrlo drom, y bu'n ei defnyddio i godi pwysau, ac fe syrthiodd hi ar ei ben. Bu farw yn yr ambiwlans ar y ffordd i'r ysbyty.

   Yn sgil marwolaethau Joe a Don a charchariad Mary, dechreuodd Peter gredu bod melltith ar River Mews. Ar ôl darllen *Ditchfield's Land Law: Bring Back the Pre-1926 Complexities!* tra oedd yn yr ystafell aros yn y ddeintyddfa, penderfynodd ei fod eisiau hollti ei gyfran o River Mews fel y gallai ei gwerthu a symud i rywle arall. Anfonodd rybudd ysgrifenedig at bob un o'i gyd-berchnogion, gan gynnwys y cyfeiriad yr oedd ganddo i rieni Mike. Anfonwyd yr holl lythyrau drwy'r post cofrestredig, ac eithrio'r un at Mary, yr aeth ag ef i dderbynfa'r carchar yn bersonol.

   Rhowch gyngor i Peter, Mike, Mary, Trish, ysgutorion ystâd Joe, a Daniella ynglŷn â pherchnogaeth pob un ohonynt o River Mews.

2. 'Ymarfer mewn biwrocratiaeth yn unig yw cofrestru tir; nid oes iddo fawr o bwrpas ymarferol.'

   Gan esbonio'r system cofrestru tir sy'n weithredol yng Nghymru a Lloegr, cloriannwch yn feirniadol i ba raddau y mae'r datganiad hwn yn gywir.

   (Yn eich ateb dylech hefyd esbonio beth yw ystyr yr 'hollt yn y drych'.)

DIWEDD Y PAPUR